

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))



Gwanwyn!

Mae'n swyddogol, mae'r Gwanwyn yma. Wrth i'r dyddiau ymestyn a'r tywydd gynhesu, rydyn ni i gyd yn dechrau teimlo llawenydd y Gwanwyn. Beth am lanhau eich prosesau gweinyddol 'Dechreuwyd Newydd' yn y gwanwyn, gan gynnwys ychwanegu cofnod staff newydd ar eu cyfer ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) tra bydd gennych eu holl wybodaeth wrth law. Fel arall, os ydynt wedi trosglwyddo o bractis arall, gallwch e-bostio eu Rheolwr Practis blaenorol i drosglwyddo eu cofnod staff i'ch practis gan ddefnyddio'r ardal 'trosglwyddo staff'.

Am ragor o wybodaeth gweler tudalen 6 ar [y Canllaw i Ddefnyddwyr](#) ar [y Modiwl Mewnbynnu Data WNWRS](#).



Data Gweithlu Practis Cyffredinol

Llongyfarchiadau i'r holl Bractisiau a rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at gydymffurfiaeth dilysu 100% am 2 Chwarter yn olynol – y tro cyntaf i hyn gael ei gyflawni ers lansio'r WNWRS yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu diweddariadau newydd gan ddefnyddio data WNWRS. Ewch i: [Adroddiad Gweithlu Ymarfer Cyffredinol Medi 2023](#) i weld yr adroddiad llawn.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am eich gwaith parhaus ar wella ansawdd eich data ar WNWRS. Gellir dod o hyd i ragor o ddogfennau cefndirol sy'n nodi'r safonau ansawdd data hyn trwy'r ddolen ganlynol: [Gweithlu practis cyffredinol: adroddiad ansawdd | LLYW.CYMRU](#)



Uwchraddiadau GPWales (Locum Hub Wales)

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid, rydym yn falch o gyhoeddi bod gwefan GPWales wedi gwneud cyfres o welliannau i'w safle. Mae'r gwelliannau yn cynnwys y canlynol:

- Mae modd nodi rheswm wrth wrthod Locwm gam ddefnyddio cwymplen a/neu ychwanegu nodiadau dewisol. Bydd hwn yn cael ei e-bostio at y Locwm fel rhan o'r ymateb a roddir os ydynt yn aflwyddiannus wrth geisio cael sifft yn eich Practis.
- Bellach gellir cofnodi sifftiau ar yr un pryd, er enghraifft 09:00-13:00 ac yna sifft 13:00-17:00.
- Mae gwybodaeth gyswllt y Locwm bellach ar gael yn yr ardal manylion sifft, yn ogystal â'r dudalen 'my Locums'.

Dylai hyn arwain at brofiad gwell i bob defnyddiwr. Defnyddiwrch y ddolen hon i ymweld â'r wefan [GPWales \(Locum Hub Wales\)](#) i gofnodi unrhyw swyddi gwag a hysbysebu unrhyw sifftiau Meddygon Teulu Locwm sydd ar gael yn eich Practis. Rydym wedi cael rhywfaint o adborth cadarnhaol yn ddiweddar ynghylch cynnydd yn nifer y meddygon teulu locwm sydd ar gael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud y mwyaf o'ch cyfleoedd i lenwi unrhyw swyddi gwag neu sifftiau Locwm yn eich Practis trwy ddefnyddio gwefan GPWales.

Sut i gysylltu â ni:

Rydym wedi newid y ffordd rydym yn cysylltu â chi yn ddiweddar ac wedi symud i wneud a derbyn galwadau gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mae hyn yn gweithio yn yr un ffordd ag o'r blaen, ond gallwn bellach rhannu ffeiliau neu droi ein galwad sain yn alwad fideo.

Ein rhif cyswllt newydd yw:

02921 50 0544



Partneriaeth Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth

Y Partneriaeth Cydwasaethau
Employment Services

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan yma: <https://pcgc.gig.cymru/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni:

Ffôn: 02921 50 0544

E-bost: NWSSP.PrimarycareWNWRS@wales.nhs.uk